# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 7fed o Orfennaf 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Rowland Jones, Caredig Jones, Ada Evans, Meirion Davies, Meic Francis, Dylan Edwards a John Davies.**

**YMDDIHEURIADAU: Dewi Rattray, Richard Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/856**
Darllenwyd cofnodion y cyfarfod Miss Mehefin gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Roland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meirion Davies.

**15/857**
**MATERION YN CODI**

1. Cadarnhaodd y Cyng.Ann fod ail doriad cymunedol fynwent y pentref am gymerid lle Nos Fawrth nesaf, 14 o Orffennaf am 6y.h. Unwaith eto, mi fi fydd posteri yn hysbysu'r noson yn cael eu gosod o amgylch y pentref. Mi fydd lluniaeth ar gael yn yr Hen Ysgol.
2. Yn anffodus, roedd newid munud olaf i noson hyfforddiant ar y Defibrillators. Mi fydd y noson yn cael eu cynnal yn ystod Mis Medi.
3. Fe ofynnodd y Cadeirydd Ann Tudor, os mi gafodd y Cyngor ateb oddiwrth y Swyddfa Bost ynglŷn â blwch post y pentref. Yn siomedig, nid oes unrhyw ymateb wedi eu derbyn. Cytunodd y Cynghorwyr fydd yn syniad i anfon llythyr arall i godi'r pwnc unwaith eto.
4. Fe ysgrifennwyd at y Cyngor ynglŷn â chyflwr y Polion a'r Ffens ar hyd y llwybr beicio. Hyd yn hyn, nid oes ymateb wedi eu derbyn. Phasiwyd i'r clerc cysylltu â'r cyngor unwaith eto er mwyn ofyn pwy fyddai orau i gysylltu er mwyn drafod hyn ymhellach.
5. Fe dderbyniwyd ymateb oddiwrth Edwina Heart ynglŷn â'r Gyffordd yn Llanfarian. Maent bellach wedi ail-leoli'r arwydd 'Tŷ ar werth'.

**15/858**
**LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Trysorydd Cymdeithas Datblygu Cymuned Llanilar i ddiolch y Cyngor Cymuned am dalu yswiriant yr Hen Ysgoldy eleni eto.
2. Taflen wybodaeth oddiwrth yr Eglwys (trwy Mr Richard Lewis) yn nodi materion a godwyd yn ystod adroddiad 'Quinquennial Inspection 2015'. Edrychodd aelodau'r Cyngor dros yr adroddiad a'r dystiolaeth a chytunwyd bydd yn syniad ysgrifennu at y Cyngor Sir i wneud ymholiadau am bosibilrwydd o grant i helpu tuag at waith trwsio'r wall
3. Llythyr wrth Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â swyddi Cafanswyr y Gwasanaeth Etholiadol.
4. Copi o gofnodion Cyfarfod Un Llais Cymru a gynhaliwyd ar y 29 o Fis Ebrill.
5. Agenda Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion, sydd yw cynnal ar yr 8fed o Orffennaf.
6. Posteri oddiwrth Cymdeithas Y Merlod a'r Cobiau Cymraeg yn hysbysebu Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig Aberaeron. Cytunwyd i arddangos y posteri ar hysbysfwrdd yr Hen Ysgol, yn y Siop a'r Garej.
7. Fe wnaeth y Cyng.Meic Francis sôn am gynnwys nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis….Cynhadledd Un Llais Cymru ar y 3ydd Hydref yn Bafiliwn Bont, Ymgynghoriad ar

strategaeth Effeithlonrwydd Cymru, Cymru Effeithlon; Arbed ynni, gwastraff a dŵr, Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol ar Hyfforddiant, Newid yn yr Hinsawdd, Welsh Audit News.

**15/859**
**ARIANNOL**

1. Anfoneb oddi wrth BT am 'Wi-Fi' yn Hen Ysgoldy. Phasiwyd hyn i drysorydd Cymdeithas Datblygu Cymuned Llanilar.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Orffennaf. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.

**15/860**
**CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau newydd.

Derbyniwyd copïau o'r Penderfyniadau a Chaniatâd Cynllunio (er wybodaeth) ar gyfer y canlynol:-
Brynadail, Llanilar
Lluestnewydd, Lledrod
Abernant, Llanfarian

**15/861 UNRHYW FATER ARALL**

1. Mae Dan Owens wedi gofyn am ganiatâd i dorri'r iorwg yn y fynwent ac i roi lladdwr-chwyn wrth ymyl y lon. Cytunwyd y byddai hyn yn dderbyniol.
2. Roddodd ddiolch gan y Cyng.Ann Tudor i Roland a Mair Jones am dorri rhan dop y fynwent.
3. Dywedodd y Cyng.Ann Tudor bod Chris Brown a rhedodd tafarn Y Falcon, wedi gadael rhodd o £350 i rannu rhwng Cymdeithasau'r Pentref, neu i roi tuag at eitem fydd y gymuned i gyd yn elwa o ddefnyddio.
4. Daeth y mater diffyg toiledau cyhoeddus yn y pentref i fynnu. Mae'r sefyllfa wedi mynd yn waeth ers i'r dafarn cau a llawer fwy o bobl yn defnyddio'r llwybr beicio a siop y pentref. Fe gofynnwyd a oes unrhyw bosibilrwydd agor toiledau'r Hen Ysgol neu'r toiledau yn yr ystafelloedd newid? Fe gadarnhawyd, na oedd bosib defnyddio'r toiledau y tu mewn ond mae'r toiledau yn yr ystafelloedd newid yn bosibilrwydd, bydd angen wneud ymchwiliadau mewn i amodau'r yswiriant a.y.b.
5. Tynnwyd sylw gan y Cyng. Meirion Davies at y 'drain' wrth ymyl gât cae Cefenllwynpiod. Mae'r beipen o dan y rhewl rhwng Treodrhiw a Pantmawr wedi ei flocio ac yn achosi dŵr i redeg i'r caeau oddi-dan. Phasiwyd at y Clerc i ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd ynglŷn â hyn.
6. Tynnwyd sylw eto at gyflwr pen lon Castle Hill. Mae tyllau yn y lon yn beryglus. Hefyd dywedwyd fod y ffens ar y briffordd wedi cwympo. Eto, phasiwyd i'r Clerc cysylltu â'r adran Priffyrdd i godi'r pwnc yma.
7. Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyflymder mae rhai cerbydau yn teithio ar yr hewl tuag at yr afon (wrth droi ar ôl Cwmaur). Mae rhai yn teithio'n llawer rhy gyflym. Mae llawer iawn o blant, pobol yn eu henoed, phobol a chŵn a beicwyr (I enwi rhai) yn defnyddio'r lon yma yn aml. Mae'r lon hefyd yn rhedeg rhwng croesffordd y llwybr beicio. Phasiwyd i'r Clerc ysgrifennu at y cyngor i weld a oes unrhyw bosibilrwydd cael cyfyngiad cyflymder o ben y lon i lawr at bont yr afon.
8. Rhewl Trawscoed – Mae'r sietyn ar ochr y ffordd wedi eu gordyfu yn sylweddol ac oherwydd hyn yn beryg iawn. Mae rhan gwaelod y sietyn nawr wedi cwmpo ar ôl y glaw ac wedi gwneud y sefyllfa yn waeth. Hefyd mae dau grid, sydd wedi eu lleoli wrth ymyl y sietyn, wedi torri, ac oherwydd y gordyfu nid yw'n bosib eu gweld yn glir – gall achosu 'puncture'.
9. Cafodd eu dwyn i sylw'r pwyllgor bod y gwelededd wrth allanfa'r llwybr beicio ar ffordd Trawscoed yn wael. Mae'r sefyllfa yn cael eu gwneud yn waeth ar arddegau, gan fod ceir yn parcio wrth ymyl yr allanfa. Phasiwyd i'r clerc cysylltu â'r cyngor ynglŷn â hyn.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.00yh